



**Adroddiad Monitro
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i
Gomisiynydd y Gymraeg
am y cyfnod rhwng
1^{af} Ebrill 2015 – 31^{ain} Mawrth 2016**

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun	3
3. Ein Cynnydd yn ystod 2014-15	4
4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	7
5. Dangosyddion Perfformiad yn gysylltiedig â'r Gymraeg	13

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg am y flwyddyn adrodd 2015-2016.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym ni fel Gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal safonau ac arferion da wrth i ni barhau i gydymffurfio gyda'n Strategaeth gyfredol ar gyfer y Gymraeg.

Hefyd, rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer Safonau arfaethedig y Gymraeg. Mae'r Grŵp Iaith, sy'n gweithredu ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, a Fforwm Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wedi cyfarfod ar sawl achlysur i ystyried y gofynion ar gyfer y safonau hyn a'r mesurau y bydd yn rhaid eu gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio pan ddônt i rym. Mae'r tri Gwasanaeth yn awyddus i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ledled Cymru.

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Gwasanaeth ac I ddarparu gwasanaeth dwyieithog I drigolion Gogledd Cymru.

2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead wedi parhau i fod yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ef hefyd yw Cadeirydd y Fforwm Iaith.

Mae'r Fforwm Iaith yn cynnwys uwch swyddogion o wahanol adrannau megis Adnoddau Dynol, Cyfathrebu Corfforaethol, Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Maent yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter, a chynhelir cyfarfodydd ychwanegol eleni er mwyn paratoi ar gyfer dyfodiad Safonau'r Gymraeg (mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais).

Mae Grŵp Iaith Gymraeg y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a chaiff ei gadeirio gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu. Mae'r grŵp yma hefyd yn cyfarfod bob chwarter ac mae hefyd wedi galw cyfarfodydd ychwanegol eleni er mwyn paratoi ar gyfer y safonau newydd (mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais).

Y Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth y Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg.

Mae penderfyniadau fel cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n ymgorffori'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, yn cael eu gwneud â chytundeb Grŵp Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol hefyd angen cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn iddo gael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cadw cynrychiolaeth ar bwylgorau a gweithgorau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg.

3. Ein Cynnydd yn ystod 2015-16

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2016.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn parhau drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg, ac rydym wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd 2015-16.

Rydym ni wedi parhau gyda'n hymrwymiad pendant i wella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o Gymraeg yn ein gweithle, yn ogystal â'r gymuned a'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu i bobl y Gogledd. Mae ein gweithgareddau tuag at y nod hwn wedi parhau i fynd o nerth i nerth.

Isod, ceir amlinelliad o'r gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd penodol yma;

Technoleg Gwybodaeth ac Arfau Ieithyddol

- Rydym wedi parhau i annog y staff i wneud defnydd o'r meddalwedd a'r technolegau iaith sydd ar gael megis Cysgliad, Microsoft Word Cymraeg, Technoleg To Bach. Mae'r staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwahanol dechnolegau iaith sydd ar gael, ynghyd â gwybodaeth am amryw o wefannau dysgu Cymraeg, mewn bwletin misol 'Mercher 'Marfer', a nodiadau atgoffa rheolaidd yn ein bwletin staff misol am yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael.
- Cafodd cyfleuster galluogi llais ei osod yn llwyddiannus ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n parhau i fod yn arf defnyddiol iawn i nifer o ddefnyddwyr. Mae'r cyfleuster yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd pan fydd unrhyw ddeunydd ychwanegol yn cael ei lwytho ar ein gwefan. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn eto, y prif dudalennau y gwrandawyd arnynt yn Gymraeg oedd rhai yn ymwneud â recriwtio a'r CDs iaith Gymraeg.
- Mae rhwydweithio cymdeithasol wedi cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu swyddogol y Gwasanaeth ac erbyn hyn mae dros 13,000 o ddilynwyr ar dudalen Facebook y Gwasanaeth a thua 12,500 o ddilynwyr ar Twitter. Mae'r holl ddiweddariadau ar Facebook a Twitter yn cael eu darparu'n ddwyieithog fel mater o drefn, ac mae pobl yn dewis cyfathrebu ac ymwneud â ni'n rheolaidd yn Gymraeg. Rydym wedi manteisio ar y cyfryngau hyn i hybu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref cyfrwng Cymraeg, ac i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol fel Yr Awr Gymraeg a Phethau Bychain. Roedd neges ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn eithriadol o boblogaidd i ddefnyddwyr eto.
- Cyflwynwyd cytundeb partneriaethol llwyddiannus gyda Heddlu Gogledd Cymru eleni, i gydnabod yn ffurfiol y cydweithio rhagorol sy'n bodoli rhwng y ddau sefydliad. Estynnwyd hyn hefyd i gynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu ychwanegol ar adeg pryd y mae'r Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg wedi bod ar gyfnod mamolaeth. Cafodd gwaith ychwanegol ei wneud hefyd gan gyfieithwyr allanol yn ystod y cyfnod.

Hyfforddi a Datblygu

- Rydym wedi parhau â'n rhaglen dysgu Cymraeg ar ffurf CD Lefel 1, 2, a 3 eleni. Mae modd lawrlwytho'r cryno-ddisgiau oddi ar ein gwefan ac mae copïau caled ar gael hefyd.
- Rydym wedi parhau i gynnig hyfforddiant yn fewnol eleni ar gyfer aelodau o'r staff nad oedd yn gallu cyrraedd y safon ddisgwyliedig drwy gymorth y rhaglen CD yn unig.

- Rydym hefyd yn parhau i gefnogi aelodau staff sy'n dymuno mynychu cyrsiau cymunedol yn hytrach na chysiau mewnol. Rydym yn darparu cefnogaeth drwy un ai dalu am y cyrsiau hyn neu neilltuo amser i'r unigolion fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith. Mae'r Cyfieithydd / Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg a'r Hyrwyddwyr iaith Gymraeg yn parhau i ddarparu gwersi a chefnogaeth yn y gweithle. Byddwn yn parhau i gynnig cyrsiau drwy edrych ar anghenion ein staff. Rydym yn gofyn i bob aelod o'r staff nodi yn ystod eu gwerthusiadau blynyddol pa gyrsiau fyddai o fantais iddynt hwy.
- Mae'r modiwl e-ddysgu o'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a lansiwyd y llynedd wedi bod yn effeithiol, yn enwedig gan fod ein Cyfieithydd/Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg wedi bod ar gyfnod mamolaeth ac felly mae llai o sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb wedi cael eu cynnal. Fe wnaethom ni hefyd gynnal cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi pryd roedd aelodau o'r staff yn cael cyfle i ennill hamper am lenwi cwis ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Cymraeg yn y Gweithle

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau'n aelod o grŵp Hunaniaith, sy'n ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno dwy wobr i staff yn flynyddol, sef un am 'Gyfraniad i'r Gymraeg' a'r llall i 'Ddysgwr y Flwyddyn'. Cyflwynwyd y wobr 'Dysgwr y Flwyddyn' eleni i Kayleigh Harper, Cydlynnydd y Trydydd Sector yn yr Adran Diogelwch Cymunedol sydd wedi'i lleoli yn y Rhyl. Fe wnaeth hi gwblhau cwrs Lefel 3 yn ddiweddar a chael marc uchel iawn yn yr arholiad. Ers cwblhau'r cwrs mae hi wedi bod yn frwd iawn dros ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg a ddysgodd, a hynny drwy anfon negeseuon e-bost a siarad Cymraeg gyda chydweithwyr ledled y Gwasanaeth. Mae Kayleigh yn wastad yn meddwl am bwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei swydd, ac mae hi'n sicrhau bod dogfennau sy'n cael eu rhannu â sefydliadau wedi cael eu cyfieithu'n iawn a bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gysylltu ag asiantaethau eraill. Mae hi'n parhau i wella ei sgiliau Cymraeg i'w chynorthwyo yn ei swydd o fewn y Gwasanaeth. Cafodd y wobr am Gyfraniad Arbennig i'r Gymraeg ei chyflwyno i Terry Williams, Pennaeth Diogelwch Cymunedol. Aeth Terry ar gwrs Academi i reolwyr yn ddiweddar lle dysgodd amrywiaeth o sgiliau newydd yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae'n cynnal cyfweiliadau am swyddi yn Gymraeg sy'n caniatáu i'r ymgeiswyr deimlo'n gysurus ac i gael eu mynegi eu hunain yn eu hiaith gyntaf. Mae hefyd yn annog unrhyw drafodaethau i gael eu cynnal yn yr iaith a ddewisir mewn cyfarfodydd ac mae'n llefarydd cyson ar gyfer cyfweiliadau â'r cyfryngau.
- Mae cyfieithu ar y pryd yn dal i gael ei gynnal yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub a chyfarfodydd cyhoeddus eraill. Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer hyn.
- Eleni, rydym wedi parhau i gynnig dewis iaith yn ystod cyfweiliadau ac rydym wedi gweithio gyda'r Adran Adnoddau Dynol i gynnig dewis iaith i bawb sy'n gwneud cais am swydd o fewn y Gwasanaeth. Mae hyn wedi cynnwys cynnig cyfweiliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y prosesau diweddar i recriwtio i'r system amser cyflawn ac RDS.
- Mae aelodau sy'n siarad Cymraeg yn yr Adran Adnoddau Dynol yn parhau i fod yn effeithiol am gynnig cyngor i'r staff am wahanol bynciau'n ymwneud ag amodau eu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r 25 o Hyrwyddwyr y Gymraeg yn parhau i gynorthwyo i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, ac maent wedi cael cyfle i fynychu seminar i hyrwyddwyr a gynhaliwyd eleni gan Hunaniaith. Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol sydd wedi ein hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau'n ymrwymedig i'r cynllun gan ei fod yn effeithiol.

- Ym mis Ionawr 2016, fe dderbyniodd pob aelod o'r staff galendr desg dwyieithog yn dilyn llwyddiant y calendrau blaenorol. Roedd y calendr yn cynnwys ymadroddion Cymraeg, geirfa syml a negeseuon tymhorol er mwyn bod yn arf gweledol I helpu'r staff I ymarfer eu Cymraeg.

Hybu'r Gymraeg yn y gymuned

- Rydym yn parhau i hybu ein hymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis' ar Facebook a Twitter ac yn ystod digwyddiadau a sioeau yr ydym ni'n eu mynychu yn ystod misoedd yr haf. Yn galonogol, rydym wedi gweld mymryn o gynnydd yn nifer yr Archwiliad Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd hon – gyda Twitter yn ffordd effeithiol o hyrwyddo'r gwasanaeth dwyieithog hwn gydag aildrydariadau niferus drwy ymgyrch Yr Awr Gymraeg.

Ein Blaenoriaethau yn ystod y Cyfnod Adrodd nesaf:

- Ymateb i'r gofynion sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg – gan gynnwys cyflwyno strategaeth gyfathrebu i helpu i godi ymwybyddiaeth am y safonau ymysg y staff er mwyn annog rhagor ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol a darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.
- Parhau i fod yn rhagweithiol o ran hyrwyddo Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref drwy gyfrwng y Gymraeg a'r ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis' i helpu i gynnal y nifer sy'n manteision ar y gwasanaeth dwyieithog hwn.
- Parhau i weithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys y gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru a'n partneriaid yng Ngogledd Cymru, yn enwedig Heddlu Gogledd Cymru, i rannu arferion da.

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol			
Canfod ffyrdd i godi proffil y Cynllun trwy: hyfforddiant ymwybyddiaeth; a mynediad at gyngor a chyfarwyddyd.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	<p>Mae modiwl ymwybyddiaeth iaith ar waith erbyn hyn.</p> <p>Mae pob aelod newydd o staff yn cael dogfen ymglyfarwyddo sy'n cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg. Mae hon yn parhau i gael ei hadolygu.</p> <p>Parhau gyda'n mewnwyd ddwyieithog sy'n cynnwys adrannau am y Gymraeg, arweiniad i ddysgwyr a gwybodaeth am Hyrwyddwyr, a darparu gwybodaeth ychwanegol i'r staff yn Niweddariad Wythnosol y Prif Swyddog a'r Fflam.</p> <p>Parhau gyda'r prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol drwy ddefnyddio'r Hyrwyddwyr.</p> <p>Bydd strategaeth gyfathrebu'n cael ei mabwysiadu l dynnu sylw at ofynion y safonau newydd.</p>	<p>Cyfeirir at y Cynllun Iaith Gymraeg yn y Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith. Bydd asesiad yn dystiolaeth o'r hyfforddiant.</p> <p>Y Fewnrwyd, Diweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam</p> <p>Darparwyd diweddariad.</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol Parhau i geisio ffyrdd o wella effeithiolrwydd ein gwefan wrth hyrwyddo ein delwedd fel sefydliad dwyieithog.	Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol Corfforaethol	Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun yr Iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig wedi cael ei ychwanegu i'n gwefan, fel y bydd gwybodaeth am ofynion y safonau newydd. Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Facebook a Twitter yn ddwyieithog hefyd.	Gweler gwefan/nau http://www.nwales-fireservice.org.uk/page.asp?page=114 www.facebook.com/northwalesfireservice www.twitter.com/northwalesfire
Paratowyd arweiniad i asiantaethau allanol a chontractwyr er mwyn tynnu eu sylw at ofynion y Cynllun. Hyn i gynnwys anogaeth gref gan drydydd partïon sy'n gweithio ar safleoedd y gwasanaeth tân ac achub i godi arwyddion dwyieithog dros dro.	Rheolwyr Gwasanaethau Cefnogol	Mae Adran Cyfleusterau'r Gwasanaeth yn cael ei rhannu gyda'r Heddlu, ac yn cael ei gweithredu rhwng y ddau sefydliad.	Mae'r paragraff isod yn cael ei ychwanegu i unrhyw ddogfennau/gwaith papur sy'n cael ei anfon i gontractwyr: <i>Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cymeradwyo ei Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi fod pob arwydd dros dro neu barhaol ar ei safle yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynghorir contractwyr i gydymffurfio gyda'r polisi hwn ac i gysylltu gyda Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar 01745 535285 am gyngor a gwasanaethau darllen profleddi am unrhyw arwyddion cyn eu cynhyrchu'n derfynol.</i>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Diweddarau'r wybodaeth a roddwn i gontractwyr ac eraill er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog.	Rheolwr Ystadau	Cynhyrchwyd taflen ddwyieithog i'w dosbarthu i gontractwyr.	Gweler uchod
Datblygu system lle mae cyfarwyddyd ysgrifenedig ynghylch ein Cynllun Iaith yn cael ei roi fel mater o drefn i asiantaethau a chontractwyr allanol.	Cydlunydd Gwasanaethau Cefnogol		Gweler uchod
Darparu'r isadeiledd mewnol			
Egluro'r cyfrifoldebau o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.	Cyfieithydd	<p>Mae gwybodaeth ar y Cynllun wedi ei gynnwys ar y fewnwyd ac mewn dau bolisi SAPPO ac fe fanteisir ar gyfleoedd i bwysleisio materion yr Iaith Gymraeg yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam.</p> <p>Mae'r cylchgrawn y Gwasanaeth, sef Y Fflam, yn cynnwys Colofn Gymraeg sydd hefyd yn atgyfnerthu ein hamcanion mewn perthynas â'r Gymraeg.</p> <p>Ychwanegwyd diweddariad rheolaidd am adnoddau Cymraeg I'r Briff Wythnosol.</p> <p>Mae'r staff yn derbyn e-bost misol sy'n codi proffil y Gymraeg – Mercher 'Marfer</p> <p>Bydd strategaeth gyfathrebu'n cael ei mabwysiadu i godi ymwybyddiaeth o'r safonau newydd.</p>	<p>Cynllun yr Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO.</p> <p>Y Fflam</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Penderfynu pa grwpiau a fyddai'n goruchwyllo'n fwyaf effeithiol y gwahanol dasgau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cyfran ddigonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog.	Y Fforwm Iaith Gymraeg	Mae'r Cynllun yn cael ei fonitro drwy'r Fforwm Iaith Gymraeg.	Cynllun Iaith Gymraeg a Pholisïau SAPPO.

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Gwneud i hyn ddigwydd			
Cynyddu'r defnydd o'r cyngor a'r cyfarwyddyd priodol wrth ddatblygu polisiau a chynlluniau gwaith. Hyn i gynnwys adnabod ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Cyfieithydd	Rhannu gwybodaeth, syniadau a chyngor gyda sefydliadau eraill. Hyrwyddo prosiect hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle i gefnogi syniadau newydd.	Rhodddwyd diweddariad.
Cryfhawyd y cyfarwyddyd a roddir i staff ynglŷn â hyrwyddo ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.	Cyfieithydd	Trwy gynnal Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a mabwysiadu'r angen i gyrraedd Lefel 2 mewn cwртеisi ieithyddol wrth gael eu penodi/dyrchafu ers Ionawr 2010. E-fodiwl ymwybyddiaeth ynghyd â phwyslais ar hybu rhagor ar yr adnoddau i'r staff.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO.
Cyflwyno targedau sgiliau ieithyddol i'r broses flynyddol o osod targedau. Datblygu Strategaeth Sgiliau Iaith, yn gysylltiedig â'r strategaeth IPDS, er mwyn sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu i gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd.	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Mae gennym broses o gasglu gwybodaeth hunanasesiadau ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg ac rydym wedi datblygu asesiadau a hyfforddiant i wella'r sgiliau'n gyffredinol.	Cronfa Ddata Workforce

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
<p>Y strategaeth hon i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Egluro pa mor ddymunol fyddai sgiliau dwyieithog i gyflawni rolau unigol yn effeithiol Ceisio ffyrdd i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n gallu siarad Cymraeg (gan gynnwys drwy dargedau addas) Sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth o'r Gymraeg i ddarparu o leiaf rai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg Gweithredu system addas sy'n gyson a gwrthrychol i asesu gallu ieithyddol 	<p>Rheolwr Datblygu a Rheolwyr AD</p>	<p>Mae hyn yn rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13.</p>	<p>Gweithio gydag AD i gau'r bwlch, a monitro gan ddefnyddio Workforce.</p>
<p>Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd i rai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' ymrwymo i gyrraedd lefel ragnodedig o fedrusrwydd yn Gymraeg o fewn cyfnod y cytunir arno.</p>	<p>Rheolwr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2013.</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO.</p>
<p>Cael ffyrdd o sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cael eu datblygu sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swydd benodol (yn hytrach na rolau generig)</p>	<p>Rheolwr/ Rheolwyr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2013 a'r cyfarwyddwyd ar recriwtio a sefydlwyd gydag AD.</p>	<p>Gweithio gyda'r Adran AD.</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth.	Rheolwr Datblygu	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg – rhaid i bob aelod newydd o'r staff neu rai sy'n edrych am ddyrchafiad gyflawni Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol. Erbyn hyn, mae cwestiwn ar allu yn yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Adolygiad Datblygu Unigol, a'i gofnodi ar Workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO.
Cyflwyno asesiadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff mewn swyddi lle nodir blaenoriaeth.	Cyfieithydd	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i fonitro drwy Workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO.
Hunanyrwybyddiaeth barhaus			
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol mewn gallu dwyieithog ymysg grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddiant neu aildosbarthu staff	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i fonitro drwy Workforce.	Gweithio gyda'r adran AD i adnabod anghenion o ran gallu.
Cynyddu'r defnydd o asesiadau ansoddol priodol er mwyn sefydlu pa mor effeithiol ydym ni'n perfformio o ran cysylltiadau cyhoeddus	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Mewnwyd ddwyieithog. Gwefan ddwyieithog. Cyfweiliadau dwyieithog â'r cyfryngau darlledu. Cyhoeddiadau dwyieithog. Defnyddio system o nodi galwadau gan y wasg yr ymdriniwyd â nhw yn Gymraeg.	Deunydd Cyfathrebu Corfforaethol
Integreiddio'r gwaith o fonitro proffil y gwasanaeth i'r prosesau blynyddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Cytunwyd gan ddefnyddio'r Dangosyddion Perfformiad a sefydlwyd.	Gweler Atodiad 4.

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn cael ei adrodd i'r Awdurdod ac mae'r dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd hefyd.	Gweler y diweddariad.

5. Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni 12 o Ddangosyddion Perfformiad (a adolygwyd ym mis Ionawr 2010).

Am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, mae'r ffigurau ar gyfer y dangosyddion newydd fel a ganlyn;

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15
DP1	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg
Sylw	Darparwyd 761 o gyflwyniadau eleni ac o'r rhain darparwyd 444 (58%) drwy gyfrwng y Gymraeg	Darparwyd 587 o gyflwyniadau eleni ac o'r rhain darparwyd 285 (49%) drwy gyfrwng y Gymraeg.
DP2	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad.	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad
Sylw	<p>Derbyniodd cyfanswm o 22,965 o blant gyngor diogelwch tân ac o'r rhain fe dderbyniodd 10,526 (46%) o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae nifer yr ysgolion a'r disgyblion a dderbyniodd cyngor diogelwch tân wedi cynyddu, yn bennaf oherwydd y gwaith ymgysylltu a wnaed mewn ysgolion uwchradd (gan weld nifer uwch o grwpiau o ddisgyblion), ac oherwydd ymgysylltu y tu allan i ysgolion mewn ffeiriau addysg ac ati. Mae canrannau'r cyflwyniadau Cymraeg a'r plant sy'n cael cyngor diogelwch tân hefyd yn uwch 9% a 3% oherwydd y gwaith cynyddol yng Ngwynedd a Môn sy'n Gymraeg gan mwyaf, ac oherwydd bod ymweliadau Criw Craidd Ysgolion Uwchradd yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf, sydd eto'n Gymraeg gan mwyaf.</p>	<p>Derbyniodd cyfanswm o 15,777 o blant gyngor diogelwch tân ac o'r rhain fe dderbyniodd 6,712 (43%) o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae canran y cyflwyniadau yn Gymraeg 12% yn is na'r llynedd, ond mae canran y disgyblion a gafodd gyflwyniad Cymraeg 4% yn uwch. Y rheswm am hyn yw fod yr holl gyflwyniadau i ysgolion uwchradd wedi cael eu cynnal eleni ond mae Conwy a Gwynedd (sy'n bennaf yn ysgolion Cymraeg) heb gael ymweliad ag ysgolion uwchradd eto, a bydd hynny'n cynyddu'n fawr ganran y cyflwyniadau Cymraeg ac ati.</p> <p>Cafodd mwy o ymweliadau ag ysgolion cynradd eu cwblhau mewn pryd ar gyfer casglu ystadegau'r adroddiad monitor blynyddol y llynedd ond ni wnaethpwyd hyn eleni gan fod dau Addysgwr wedi gadael y Gwasanaeth ac roedd bwch yn yr ymweliadau ac ysgolion hyd nes y penodwyd rhai yn eu lle.</p>

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15																																																																																										
DP3	Nifer a % yr archwiliadau diogelwch yn y cartref a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg 2015-16	Nifer a % yr archwiliadau diogelwch yn y cartref a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg 2014-15																																																																																										
Sylw	<p>Allan o gyfanswm o 22,500 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn 2015/16, roedd 3,292 wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (14.63%).</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016.</p> <p style="text-align: center;">ADCau a gwblhawyd yn Gymraeg - 2015-2016</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfanswm</th> <th>Cym.</th> <th>Saes.</th> <th>% Cymraeg</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>4,323</td> <td>251</td> <td>4,072</td> <td>5.81%</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>3,398</td> <td>228</td> <td>3,170</td> <td>6.71%</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>4,125</td> <td>13</td> <td>4,112</td> <td>0.32%</td> </tr> <tr> <td>Gogledd Gwynedd</td> <td>2,985</td> <td>1,442</td> <td>1,543</td> <td>48.31%</td> </tr> <tr> <td>De Gwynedd</td> <td>1,440</td> <td>570</td> <td>870</td> <td>39.58%</td> </tr> <tr> <td>Wrecsam</td> <td>3,493</td> <td>15</td> <td>3,478</td> <td>0.43%</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>2,736</td> <td>773</td> <td>1,963</td> <td>28.25%</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>22,500</td> <td>3,292</td> <td>19,208</td> <td>14.63%</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfanswm	Cym.	Saes.	% Cymraeg	Conwy	4,323	251	4,072	5.81%	Sir Ddinbych	3,398	228	3,170	6.71%	Sir y Fflint	4,125	13	4,112	0.32%	Gogledd Gwynedd	2,985	1,442	1,543	48.31%	De Gwynedd	1,440	570	870	39.58%	Wrecsam	3,493	15	3,478	0.43%	Ynys Môn	2,736	773	1,963	28.25%	Cyfanswm	22,500	3,292	19,208	14.63%	<p>Allan o gyfanswm o 27,106 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn 2014/15, roedd 3,806 wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (14.04%).</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015.</p> <p style="text-align: center;">ADCau a gwblhawyd yn Gymraeg - 2014-2015</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfanswm</th> <th>Cym.</th> <th>Saes.</th> <th>% Cymraeg</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>5,101</td> <td>291</td> <td>4810</td> <td>5.70%</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>3,761</td> <td>186</td> <td>3575</td> <td>4.95%</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>5,960</td> <td>12</td> <td>5948</td> <td>0.20%</td> </tr> <tr> <td>Gogledd Gwynedd</td> <td>3,252</td> <td>1,639</td> <td>1613</td> <td>50.40%</td> </tr> <tr> <td>De Gwynedd</td> <td>1,742</td> <td>742</td> <td>1000</td> <td>42.59%</td> </tr> <tr> <td>Wrecsam</td> <td>4,067</td> <td>10</td> <td>4057</td> <td>0.25%</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>3,223</td> <td>926</td> <td>2297</td> <td>28.73%</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>27,106</td> <td>3,806</td> <td>23,300</td> <td>14.04%</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfanswm	Cym.	Saes.	% Cymraeg	Conwy	5,101	291	4810	5.70%	Sir Ddinbych	3,761	186	3575	4.95%	Sir y Fflint	5,960	12	5948	0.20%	Gogledd Gwynedd	3,252	1,639	1613	50.40%	De Gwynedd	1,742	742	1000	42.59%	Wrecsam	4,067	10	4057	0.25%	Ynys Môn	3,223	926	2297	28.73%	Cyfanswm	27,106	3,806	23,300	14.04%
Sir	Cyfanswm	Cym.	Saes.	% Cymraeg																																																																																								
Conwy	4,323	251	4,072	5.81%																																																																																								
Sir Ddinbych	3,398	228	3,170	6.71%																																																																																								
Sir y Fflint	4,125	13	4,112	0.32%																																																																																								
Gogledd Gwynedd	2,985	1,442	1,543	48.31%																																																																																								
De Gwynedd	1,440	570	870	39.58%																																																																																								
Wrecsam	3,493	15	3,478	0.43%																																																																																								
Ynys Môn	2,736	773	1,963	28.25%																																																																																								
Cyfanswm	22,500	3,292	19,208	14.63%																																																																																								
Sir	Cyfanswm	Cym.	Saes.	% Cymraeg																																																																																								
Conwy	5,101	291	4810	5.70%																																																																																								
Sir Ddinbych	3,761	186	3575	4.95%																																																																																								
Sir y Fflint	5,960	12	5948	0.20%																																																																																								
Gogledd Gwynedd	3,252	1,639	1613	50.40%																																																																																								
De Gwynedd	1,742	742	1000	42.59%																																																																																								
Wrecsam	4,067	10	4057	0.25%																																																																																								
Ynys Môn	3,223	926	2297	28.73%																																																																																								
Cyfanswm	27,106	3,806	23,300	14.04%																																																																																								
DP4	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 1.	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 1.																																																																																										
Sylw	3 (0.35%) (Mae'r asesiad lefel 1 yn cael ei ddefnyddio'n anaml iawn erbyn hyn gan fod gofyn i'r rhan fwyaf o'r staff gyrraedd lefel 2 neu uwch)	4 (0.46%)																																																																																										
DP5	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 2.	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 2.																																																																																										
Sylw	42 (5.04%) (8 ohonynt wedi bod ar gwrs ffurfiol i ddysgu Cymraeg)	45 (5.18%)																																																																																										
DP6	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 3.	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 3.																																																																																										
Sylw	12 (1.44%) (7 ohonynt wedi bod ar gwrs ffurfiol i ddysgu Cymraeg. At hynny: cafodd 6 aelod o'r staff eu hasesu ar Lefel 4, a chafodd 15 eu hasesu ar Lefel 5	10 (1.15%)																																																																																										

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15
DP7	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel cymhwyster y cytunwyd arni yn y Gymraeg.	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel cymhwyster y cytunwyd arni yn y Gymraeg.
Sylw	16 (1.92%) 9 ohonynt wedi bod ar gwrs Cymraeg Lefel 2 7 ohonynt wedi bod ar gwrs Cymraeg Lefel 3	13 (1.5%)
DP8	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
Sylw	Mae 60 (7.19%) wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith drwy fodiwl e-ddysgu – 43 drwy gyfrwng y Saesneg ac 17 drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 130 aelod o'r staff (14.98%) wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
DP9	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).
Sylw	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
DP10	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).
	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15
DP11	<p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2</p> <p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2</p>	<p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2</p> <p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2</p>
Sylw	<p>Mae'n rhaid i aelodau staff newydd gyrraedd Lefel 2 o leiaf neu'r Lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd.</p> <p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi llwyddo ar Lefel 2</p> <p>39 (4.68%) o staff newydd – mae 32 ohonynt wedi cyrraedd Lefel 2 neu uwch (mae'r 7 sydd heb gyrraedd eto yn dal o fewn eu cyfnod prawf pryd y mae disgwyl iddynt gyrraedd y lefel angenrheidiol.)</p> <p>Nifer a % staff a ddyrchafwyd ac sydd wedi llwyddo ar Lefel 2</p> <p>Dyrchafwyd 21 aelod o staff (2.5%%) - 20 ohonynt wedi cael naill ai Lefel 2 neu uwch.</p>	<p>Rhaid i staff newydd llwyddo ar Lefel 2 neu'r Lefel a nodwyd yn ofynnol ar gyfer y swydd.</p> <p>58 (6.68%) o staff newydd wedi cyrraedd Lefel 2 ac uwch 7 (0.83%%) o staff a ddyrchafwyd wedi cyrraedd Lefel 2 ac uwch</p>
PI12	<p>Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Siroedd o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.</p>	<p>Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Siroedd o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.</p>
Sylw	<p>Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.</p>	<p>Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.</p>

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15
DP13	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Siroedd o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Siroedd o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.
Sylw	Bu'n her i fonitro'r rhain yn gywir hyd yma, a chaiff proses fonitro newydd ei mabwysiadu fel rhan o gyflwyno safonau'r Gymraeg yn ystod 2016-17	<p>Mae'r swyddfeydd sirol wedi cael eu huno- ac felly mae'r ffigurau yn seiliedig ar ddwy sir fel y nodir isod.</p> <p>Conwy a Sir Ddinbych 15.5% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>Wrecsam a Sir y Fflint 21% o lythyrau a 61% o alwadau</p> <p>Gwynedd ac Ynys Môn 68% o lythyrau a 61% o alwadau</p> <p>(Mae'r holl lythyrau mewn perthynas ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog ymhob sir. Mae pob galwad yn cael ei hateb yn ddwyieithog)</p>
DP14	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig).
Sylw	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
DP15	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog.	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog.
Sylw	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
DP16	Nifer a % y staff o fewn y Gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd, neu fan gwaith.	Nifer a % y staff o fewn y Gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd, neu fan gwaith.
Sylw	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler y Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod

	Ystadegau 2015-16	Ystadegau 2014-15
DP17	Nifer a % y cwynion o ffynonellau, sydd ddim yn cynnwys staff na'u cynrychiolwyr, am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.	Nifer a % y cwynion o ffynonellau, sydd ddim yn cynnwys staff na'u cynrychiolwyr, am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.
Sylw	Ni chafwyd unrhyw gŵyn o'r natur hwn yn ystod y cyfnod.	Cafwyd 1 gŵyn o'r math yma (gyfystyr â 3.7% o'r holl gwynion ffurfiol). Deliwyd â'r cwyn yn unol â safonau'r Awdurdod. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwydd a oedd wedi ei godi y tu allan i Orsaf Dân Caergybi. Nid oedd Holyhead wedi cael ei gyfieithu i Caergybi. Rhoddwyd gwybod i'r Adran Gyfleusterau am hyn ar unwaith a chodwyd arwydd newydd. Gofynnwyd i'r Rheolwyr Ymateb wirio a oedd yr arwyddion y tu allan i'r gorsafodded yn eu hardaloedd hwy yn gywir a ni chanfuwyd unrhyw gamgymeriadau eraill.
DP18	Nifer a % y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr am faterion iaith.	Nifer a % y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr am faterion iaith.
Sylw	Ni chafwyd unrhyw gŵyn o'r natur hwn yn ystod y cyfnod.	Ni chafwyd unrhyw gŵyn o'r natur hwn yn ystod y cyfnod.
DP19	Nifer a % yr asiantaethau a contractwyr sy'n derbyn canllaw i gydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg.	Nifer a % yr asiantaethau a contractwyr sy'n derbyn canllaw i gydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg.
Sylw	Mae pob Contractwr ar y rhestr Contractwyr Cymeradwy wedi cael eu hysbysu o Gynllun Iaith Gymraeg GTAGC. Mae contractwyr newydd yn cael eu hysbysu pan fyddant yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Mae'r Adran Cyfleusterau yn ymdrechu i roi gwybod i Gontractwyr a staff am Bolisi Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r adran TGCh hefyd yn gwneud yn siŵr bod yr holl gontractwyr y mae'r adran yn eu defnyddio yn gyfarwydd â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.	Mae pob Contractwr ar y rhestr Contractwyr Cymeradwy wedi cael eu hysbysu o Gynllun Iaith Gymraeg GTAGC. Mae contractwyr newydd yn cael eu hysbysu pan fyddant yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Mae'r Adran Cyfleusterau yn ymdrechu i roi gwybod i Gontractwyr a staff am Bolisi Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r adran TGCh hefyd yn gwneud yn siŵr bod yr holl gontractwyr y mae'r adran yn eu defnyddio yn gyfarwydd â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.
